Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Dilwyn Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

05 Chwefror 2015

Annwyl Mr Williams,

**Ymweliad Monitro gan Estyn 2 - 5 Rhagfyr 2014**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2013, nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod, ar ffurf monitro gan Estyn. Yn sgil hynny, cytunwyd ar gynllun monitro gyda'ch arolygydd cyswllt yn Estyn. Cynhaliwyd ymweliadau monitro ar 12 - 13 o Fawrth 2014 a'r 23 - 25 Mehefin 2014. Cynhaliwyd trydydd ymweliad monitro, sef yr ymweliad terfynol, o 2 i 5 Rhagfyr 2014. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau terfynol y monitro gan Estyn ar ôl yr arolygiad.

Yn Rhagfyr 2014, arweiniodd Mr Iwan Roberts AEM dîm o dri arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn yr argymhellion a oedd yn weddill yn sgil yr arolygiad, ac i ystyried perfformiad cyffredinol yr awdurdod yn unol â'i gynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Yn ystod yr ymweliadau monitro cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid ysgolion a chynrychiolwyr partneriaid. Bu arolygwyr yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn gysylltiedig â phob un o argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau i chi fel prif weithredwr, ac i arweinydd y cyngor, yr aelodau cabinet perthnasol, y cyfarwyddwr corfforaethol a chyfrifoldeb dros addysg a dysgu gydol oes, y cyfarwyddwr addysg dros dro, cadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Aeth yr awdurdod ati'n gyflym i fynd i'r afael â'r argymhellion yn codi o arolygiad 2013. Yn ystod cyfnod o newid sylweddol ymhlith uwch reolwyr y cyngor a'r

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

gwasanaeth, mae'r awdurdod wedi gweithredu yn gyflym ac yn bendant i gynllunio ar gyfer gwelliant. Nid oes tystiolaeth bod diffyg cynhwysedd dros y cyfnod yma wedi bod yn andwyol o safbwynt gallu'r cyngor na'r gwasanaeth addysg i gyflawni eu dyletswyddau.

Penderfynodd y cyngor i glustnodi adnoddau penodol ac ychwanegol i hyrwyddo'r gweithredu ac i sicrhau cynnydd priodol ac amserol wrth fynd i'r afael â'r cynllun ôl arolygiad. Mae'r adnoddau yma wedi cynorthwyo'r cyngor i gynnal momentwm priodol o ran cynnydd yn erbyn y rhan fwyaf o dargedau'r cynllun hwn.

Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn sgil arolygiad Mawrth 2013.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r awdurdod o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

**Argymhelliad 1: Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd**

**Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.**

Adroddodd arolygiad Estyn ym Mawrth 2013 nad oedd yr awdurdod wedi gwneud digon o gynnydd wrth reoli a llywodraethu diogelu. Nid oedd dealltwriaeth glir o weithdrefnau i sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer amddiffyn a diogelu plant ar lefel gorfforaethol a rhwng adrannau yn yr awdurdod lleol. O'r herwydd, nid oedd trefniadau diogelu'r awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol ac roeddent yn destun pryder.

Mae'r awdurdod wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gwella ôl-arolygiad. Mae ailstrwythuro ar lefel penaethiaid gwasanaeth, gan gynnwys creu swydd pennaeth gwasanaethau plant a chefnogi teuluoedd, wedi cryfhau gallu cynhenid corfforaethol yr awdurdod i sefydlu, datblygu a rheoli ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc.

Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu diogelu yn briodol yn ei strategaeth gorfforaethol. Mae hyn wedi gosod seiliau addas i'r broses o wella. O fewn cyfnod byr i ddiwedd yr arolygiad, fe fabwysiadodd yr awdurdod bolisi diogelu corfforaethol priodol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu a mabwysiadu polisïau cyfatebol ar gyfer bron pob gwasanaeth. Mae cynlluniau a pholisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cwrdd â gofynion statudol yn briodol.

Ym mis Tachwedd 2013, sefydlodd y Cyngor Banel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion i arwain a sicrhau cyfeiriad strategol i'r gwaith. Mae'r panel yn cynnwys yr aelodau arweiniol ac uwch swyddogion perthnasol. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan banel gweithredol sy'n cynnwys rheolwyr o holl adrannau'r Cyngor. Mae gwaith y paneli hyn, sy'n cydlynu gwaith diogelu yn briodol ar draws gwasanaethau'r cyngor, yn gryfder.

Drwy'r paneli, mae'r awdurdod wedi adolygu'n drwyadl ei drefniadau ar gyfer hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth holl staff y cyngor am faterion diogelu yng nghyd-destun darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r rhaglenni hyn yn parhau, gyda threfniadau penodol i ddiweddaru hyfforddiant pob gweithiwr bob tair blynedd wedi ei raglennu oddi mewn i fatrics hyfforddiant yr awdurdod. Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi comisiynu arolwg i ddarganfod effeithiolrwydd ei raglen hyfforddi wrth godi ymwybyddiaeth aelodau staff o'i weithdrefnau mewn perthynas â diogelu. Mae'n defnyddio canfyddiadau'r arolwg i alluogi rheolwyr i adnabod carfanau o weithwyr sydd angen hyfforddiant pellach a darparu'n briodol ar eu cyfer.

Mae'r paneli hefyd wedi cydlynu gwaith i gyflawni blaenoriaethau eraill yn effeithiol. Mae wedi datblygu trefniadau addas a chyson ar gyfer recriwtio a phenodi ar draws pob gwasanaeth. Lluniwyd poster priodol i hysbysu'r gweithwyr a'r cyhoedd am y llinell ffôn i'w defnyddio i adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt sy'n ymwneud â diogelu.

Mae trefniadau mwy cadarn a chyson wedi eu mabwysiadu o fewn pob adran i gofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelu. Yn ddiweddar, mae gweithdrefnau wedi eu datblygu i gydlynu'r wybodaeth am arfer a chanfyddiadau diogelu ar draws adrannau a gwasanaethau'r awdurdod. Mae hyn yn galluogi uwch reolwyr i archwilio'r wybodaeth ac adnabod unrhyw dueddiadau neu batrymau ymddygiad all fodoli ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gweithdrefnau hyn.

**Argymhelliad 2: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio yn wael yn fwy cadarn.**

**Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol**

Yn ein hadroddiad yn 2013, nodwyd bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn is na'r cyfartaledd a bod gormod o ysgolion yn y chwarter isaf o ran y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion. Fel hyn y bu hi dros y pedair blynedd cyn yr arolygiad.

Yn dilyn yr arolygiad yn 2013 mae'r awdurdod wedi adnabod chwe ysgol uwchradd ble roedd perfformiad cyfnod allweddol 4 yn achos pryder. Yn dilyn cyfarfodydd pwrpasol gyda phennaeth a chadeirydd corff llywodraethol pob ysgol, cytunwyd ar gamau gweithredu unigol ar gyfer pob un. Sefydlwyd rhwydwaith ar gyfer timau rheoli'r ysgolion sy'n cael ei hwyluso a'i gefnogi gan swyddogion o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GwE). Dros y cyfnod ers yr arolygiad mae'r rhwydwaith wedi adnabod ystod addas o anghenion datblygu ac wedi trefnu cyfarfodydd a gweithdai buddiol i'w gwella. Mae'r sesiynau wedi cynnwys aelodau o grwpiau rheoli ysgolion eraill tu mewn a thu allan i'r awdurdod i hybu arfer effeithiol. Mae'r sesiynau wedi canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd elfennau rheolaethol fel trefniadau hunan-arfarnu, cynlluniau gwella a gweithdrefnau ar gyfer tracio cynnydd disgyblion.

Er mwyn cyfarfod ag anghenion penodol adrannau sy'n tanberfformio yn yr ysgolion targed, mae'r awdurdod wedi comisiynu arbenigedd allanol sydd ar y cyfan wedi bod yn arf effeithiol er mwyn hyrwyddo gwelliant. Er enghraifft, mae cyn-ddirprwy o

awdurdod cyfagos wedi gweithio ag un ysgol ar lythrennedd ac mae cyn-ymgynghorydd mathemateg wedi cyd-weithio ag ysgol arall. Trefnwyd hyfforddiant estynedig i garfan o reolwyr canol. Mae hyn yn datblygu a chryfhau eu sgiliau arweinyddol a rheolaethol mewn meysydd megis dadansoddi data, hunan arfarnu, datblygu systemau tracio cynnydd carfannau o ddisgyblion a hybu disgwyliadau uchel. Maent yn rhannu rhain yn effeithiol gyda'u cydweithwyr yn eu hysgolion. Mae trefniadau priodol i ddatblygu cefnogaeth ysgol i ysgol ac mae rhai trefniadau gwerthfawr yn eu lle i baru ysgolion ac adrannau i hybu arfer dda.

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Craffu ar ansawdd addysg ym Medi 2013, mae'r awdurdod wedi sefydlu'r Prosiect Hyrwyddo Ansawdd yn y sector uwchradd. Yn Ionawr 2014, secondiwyd dirprwy bennaeth ar delerau rhan amser i arwain y gwaith ac mae'r secondiad yn un llawn amser ers Medi. Mae'r prosiect yn cefnogi datblygiadau gwella ansawdd arweinyddiaeth a chodi safonau yn yr ysgolion uwchradd yn effeithiol, gan gyffwrdd ag ystod dda o feysydd sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen gwella.

Yn 2013, roedd yr awdurdod wedi cyfarfod â, neu berfformio'n well na holl feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod allweddol 4, ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod â'r meincnod ar gyfer lefel 2 yn cynnwys mathemateg a Chymraeg neu Saesneg am y tro cyntaf o fewn pum mlynedd. Rhwng 2012 a 2014, bu cynnydd uwch na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd y sir ar y dangosydd yma ym mhob un o'r ysgolion a dargedwyd gan yr awdurdod yn dilyn yr arolygiad ym Mawrth 2013. Bu cynnydd hefyd ym mherfformiad y mwyafrif o weddill ysgolion uwchradd y sir. Er hynny, mae gormod o ysgolion yn parhau yn y chwarter isaf ar y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion ar gyfer cyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 3: Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio**

**Aethpwyd i'r afael a'r argymhelliad hwn yn rhannol**

Mae'r drefn o fonitro a herio'r ysgolion wedi ei grymuso yn briodol yn y cyfnod ers yr arolygiad. Mae tystiolaeth gynnar yn dynodi bod ymgynghorwyr her yn cynnig her bwrpasol i arweinwyr ysgolion ac yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn adnabod eu hysgolion yn dda.

Mae swyddogion yr awdurdod, swyddogion GwE a'r aelod cabinet yn cynnal cyfarfodydd bob yn ail wythnos i drafod materion perthnasol gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i ysgolion sy'n tanberfformio. Maent yn rhannu eu dealltwriaeth o natur yr heriau a'r camau gweithredu sydd ei angen i gefnogi'r ysgolion hynny. Mae'r ymgynghorwyr her sy'n ymwneud â'r ysgolion sy'n tanberfformio hefyd yn mynychu i roi tystiolaeth uniongyrchol i'r grŵp. Gwahoddir penaethiaid yr ysgolion yma i gyfarfod gyda pennaeth y gwasanaeth addysg a'r aelod cabinet i drafod eu cynlluniau gwella. Caiff y cynlluniau yma eu monitro'n briodol gan bennaeth y gwasanaeth addysg yn y cyfnod dilynol er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yma yn gwneud cynnydd priodol. Yn ystod y deunaw mis diwethaf, mae swyddogion o'r awdurdod wedi cynnal ymweliadau â dwy ysgol sy'n achosi pryder oherwydd eu

perfformiadau tros gyfnod.  Mae un o'r ymweliadau yma wedi deillio o arolygiad Estyn.  Mae'r ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd priodol yn y cyfnod tan sylw.

Yn ogystal, mae'r swyddog addysg a swyddogion y consortiwm rhanbarthol yn ymgymryd ag ymweliadau ar y cyd i ysgolion sy'n tanberfformio er mwyn craffu yn fanylach ar waith yr ysgol ac i ddeall y cyd-destun a'r heriau sydd yn eu hwynebu. Mae'r trefniadau yma yn eu dyddiau cynnar.

Yn ddiweddar, bu swyddogion yr awdurdod ac aelodau etholedig yn cadarnhau'r camau gweithredu ar gyfer gwneud defnydd o'u pwerau i fynd i'r afael ag ysgolion sy'n tanberfformio.  Bellach mae 'na eglurder ynglŷn â hyn o blith swyddogion a phenaethiaid.  Mae'r awdurdod wedi danfon rhybudd swyddogol statudol mewn un achos oherwydd mater cyllidol.  Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi bod yn gyndyn i ymyrryd yn ffurfiol mewn ysgolion sy'n tanberfformio.  Hyd yma, nid ydyw wedi gwneud digon o ddefnydd o'i bwerau statudol i fynd i'r afael a thangyflawni mewn ysgolion penodol.

**Argymhelliad 4:  Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.**

**Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.**

Yn 2011-2012, roedd presenoldeb yn hanner yr ysgolion uwchradd yng Ngwynedd yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.  Roedd pedair ysgol wedi bod yn y chwarter isaf am bedair blynedd yn olynol, ac un ysgol am dair.  Nodwyd bod hyn yn ddiffyg pwysig gan y tîm arolygu.  Roedd yr adroddiad arolygu hefyd yn nodi bod yr awdurdod wedi dechrau mynd i'r afael â'r her o wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd a bod proses clir, a systematig wedi'i chytuno gydag ysgolion a oedd wedi arwain at ddeilliannau cychwynnol cadarnhaol.  Fodd bynnag, roedd yr awdurdod wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â phresenoldeb cyson isel mewn ychydig o'i ysgolion uwchradd.

Ers yr arolygiad, mae'r cyngor â'r ysgolion uwchradd wedi dynodi gwella presenoldeb fel maes blaenoriaeth.  Mae'r cyngor wedi cyd-weithio yn effeithiol gyda thimau rheoli'r ysgolion uwchradd i hyrwyddo presenoldeb ac ymdrin ag absenoldebau. Mae'r cyngor wedi penodi swyddog dros dro i arwain y gweithredu yn y maes hwn ac mae'r gwaith wedi mynd rhagddo yn effeithiol.

Ym mis Mehefin 2013, bu swyddogion yn cynnal cyfarfodydd gyda phenaethiaid uwchradd i ystyried y graddfeydd presenoldeb yn yr ysgolion ac fe gafodd nifer o elfennau oedd angen eu gwella a'u cysoni eu hadnabod.  O ganlyniad, mae'r awdurdod a'r ysgolion uwchradd wedi cydweithio'n rheolaidd i roi nifer o weithdrefnau newydd yn eu lle.  Lluniodd yr awdurdod ganllawiau a pholisïau clir ac ymarferol sydd wedi rhoi cyfeiriad penodol i'r gweithredu yn yr ysgolion.

Mae trefn waith y swyddogion lles wedi newid bellach ac maent wedi eu lleoli fwy yn yr ysgolion yn hytrach na mewn swyddfa ganolog.  O ganlyniad, mae ganddynt berthynas uniongyrchol gyda theuluoedd y disgyblion sydd yn absennol yn aml. Maent yn adolygu presenoldeb ac absenoldebau yn wythnosol gan ymateb yn gynnar i achosion sydd angen sylw.  Mae cyfundrefn briodol mewn lle i fonitro

presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r awdurdod yn adnabod patrymau mewn absenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion dros gyfnod, gan gynnwys y rheini sy'n deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r awdurdod bellach yn adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n tueddu i fod yn absennol yn aml, ac wedi gweithio'n dda gyda ysgolion i gyflwyno ystod o raglenni ymyrraeth a chyrsiau galwedigaethol addas. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb llawer ohonynt.

Mae presenoldeb pob ysgol uwchradd o fewn yr awdurdod wedi codi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bellach, mae presenoldeb mwyafrif ysgol uwchradd Gwynedd yn uwch na'r canolrif mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg.

Mae nifer y gwaharddiadau ymysg yr isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer y dyddiau a gollir oherwydd gwaharddiadau tymor penodol yn parhau yn rhy uchel o'u cymharu â gweddill awdurdodau Cymru.

**Argymhelliad 5: Gwella ansawdd hunanarfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr adran addysg.**

**Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad yma yn rhannol**

Yn ein hadroddiad arolygu yn 2013, nodwyd nad oedd prosesau hunanarfarnu parhaus y cyngor wedi bod yn groyw ac yn ddigon clir i nodi cryfderau a gwendidau yn gyson ar draws gwasanaethau, er enghraifft, mewn meysydd yn ymwneud â gwella ysgolion a diogelu. Hefyd nodwyd nad oedd yr adran addysg yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau corfforaethol, ac nad oedd rhai agweddau allweddol wedi'u datblygu'n ddigonol, fel arfarnu perfformiad yn erbyn disgwyliadau a phennu camau gweithredu a oedd yn arwain at welliant. O ganlyniad, roedd yna fylchau yn y prosesau hunanarfarnu a chynllunio gweithredol. Roedd y diffygion hyn yn atal swyddogion adrannol rhag deall effaith lawn eu gwaith, a rhag pennu blaenoriaethau priodol.

At ei gilydd, mae gweithdrefnau rheoli perfformiad, hunan arfarnu a chynlluniau gwella yn yr adran addysg wedi cryfhau ers yr arolygiad. Mae llinellau atebolrwydd o'r adran i'r cyngor yn fwy clir a bellach mae 'na gyswllt mwy uniongyrchol o flaenoriaethau corfforaethol i flaenoriaethau'r adran addysg. Caiff mesuryddion yr adran addysg eu monitro yn chwarterol gan banel cyflawni'r Cyngor sy'n cael ei gadeirio gan yr aelod cabinet. Mae'r swyddog sydd â chyfrifoldeb penodol am y mesuryddion yn adrodd ar rhain ac os oes llithriadau, mae'r swyddog yn cael ei herio a'i ddwyn i gyfrif yn llawer mwy effeithiol gan aelodau'r panel cyflawni.

Os ydy'r panel yn barnu bod risgiau penodol neu lithriad yn erbyn y mesuryddion, fe fydd yr elfen honno yn cael ei huwchraddio i'r lefel gorfforaethol. O ganlyniad, mae craffu llawer mwy gofalus ar y cynnydd yn erbyn y mesuryddion yma ac mae lefelau atebolrwydd yn fwy grymus.

Mae hunanarfanu yn digwydd ar sawl lefel yn y cyngor, ac at ei gilydd mae'r prosesau yma wedi gwella ers yr arolygiad. Yn aml bydd y cyngor yn comisiynu swyddogion i gyflwyno adroddiad hunan arfarnu ar brosiect penodol er mwyn ystyried

effeithiolrwydd gweithredu a sicrhau gwerth am arian. Yn ogystal, mae'r adran addysg yn arfarnu effeithiolrwydd ardaloedd penodol o'r gwasanaeth yn rheolaidd. O ganlyniad, mae risgiau yn cael eu hadnabod yn ac yn cael sylw priodol. Mae swyddog wedi ei glustnodi i roi arweiniad i ddatblygu cyfundrefn rheoli perfformiad mwy effeithiol o fewn yr adran addysg. Bellach mae mesuryddion clir ar gyfer blaenoriaethau'r adran gyda phroses o adrodd systematig. Clustnodwyd unigolion i fod yn gyfrifol am fesuryddion penodol, ac erbyn hyn mae gwell eglurdeb gan swyddogion o fewn yr adran addysg ynglyn â'u cyfrifoldeb am fesuryddion penodol.

Er bod adroddiadau hunan arfarnu'r adran addysg bellach yn dilyn y weithdrefn gorfforaethol, nid yw'r wybodaeth sydd yn cael ei ddarparu i'r uwch swyddogion a'r aelodau etholedig bob amser yn adnabod gwendidau o fewn y gwasanaeth yn ddigon cywir. Er enghraifft, nid yw'r adroddiadau yn nodi methiant yr awdurdod lleol i sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth mewn uned cyfeirio disgyblion. Hefyd mae'r adroddiad sydd yn cael ei gyflwyno yn gorliwio agweddau cadarnhaol o berfformiad yr awdurdod ar draul rhai agweddau llai cadarnhaol. O ganlyniad, nid yw'r uwch swyddogion na'r aelodau etholedig yn derbyn yr holl wybodaeth sydd angen arnynt i ddwyn yr adran addysg i gyfrif yn effeithiol.

**Argymhelliad 6: Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag**

**Aethpwyd i'r afael a'r argymhelliad yma i raddau helaeth**

Ers yr arolygiad ym Mawrth 2013 mae'r awdurdod wedi gweithio'n effeithiol i roi nifer o flaenoriaethau y strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ar waith. Mae gweithredu cynllun i ad-drefnu darpariaeth gynradd yn nalgylch Tywyn, cam cyntaf cynllun ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Berwyn a chau ysgol gynradd yn nalgylch Botwnnog eisoes wedi dileu 376 o lefydd gweigion o fewn y sir. Mae cynllun i uno tair ysgol gynradd yn Arfon mewn adeilad newydd ym Medi 2015 wedi ei gytuno a'i fabwysiadu. Bydd yr ysgol newydd yn agor ym Medi 2015 gan ddileu 97 o lefydd ychwanegol. Bydd cynllun arfaethedig i ail-fodelu ysgol Glancegin yn arwain at ddileu oddeutu cant o lefydd gweigion yn yr ysgol honno.

Mae'r awdurdod yn bresennol yn ymgynghori ar gynllun i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysgol yn nalgylch y Gader ac ar ail gam cynllun ad-drefnu ysgolion dalgylch y Berwyn. Bwriedir dwyn adroddiad gerbron cabinet y cyngor ar y cyntaf o'r cynlluniau yma yn Ionawr 2015. O'u gwireddu, mae cynlluniau'r cyngor yn rhagweld y bydd y ddau gynllun yn dileu oddeutu 650 o lefydd gweigion, ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd, erbyn Medi 2017.

Yn ogystal â'r cynlluniau uchod mae'r awdurdod wedi ymgymryd â threfniadau cynhwysfawr i ddiweddaru gwybodaeth am gapasiti a'r defnydd o le mewn ysgolion. Mae'r gwaith yma yn darparu data cyfoes ar gyfer ail-asesu cynhwysedd a nifer llefydd gweigion. Mae'r gwaith a gyflawnwyd eisoes yn awgrymu lleihad pellach yn nifer y llefydd gweigion ar draws ysgolion y sir.

**Y camau nesaf**

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Gwynedd